# Llên natur

**Bwletin 153**
**Tachwedd 2020**

**gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach, adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**



Awyrgylch reit  iasol yn y goedwig bore Mercher **Alun Williams**


Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd


**(Rhif Elusen: 1126027)**

**, 1 Hydref 2020**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

## Pwy enwodd y pengwin?



**Ydi'r gair Saesneg PENGUIN yn tarddu o "ben gwyn" y CARFIL MAWR.** Aeth y carfil mawr i ddifodant ddechrau'r 19eg ganrif trwy hela barus a didrugaredd morwyr oherwydd ei anallu i hedfan. *Gairfowl* oedd ei enw Saesneg ar y pryd. Tybed ai o'r gair hwn mae ein gair carfil yn dod? Ond cwestiwn arall sydd gan Ruairidh (Roddy) Mclean - ai pen gwyn y carfil mawr esgorodd ar y gair 'pengwin' gan forwyr Cymreig, cyn cael ei fabwysiadu am y pengwin, aderyn tebyg ei ymarweddiad ym moroedd y de? Ac ai dyma darddiad *penguin* yn Saesneg?

Mae'r ateb yn gymhleth a diddorol ac mae ein cyfaill o'r Alban Ruairidh (Roddy) Mclean yn pwyso a mesur y dystiolaeth yn deg. (Agorwch y ddolen I ddarllen ei ysgrif yn yr Aeleg)

"The Great Auks at Home" gan John Gerrard Keuleman

***The Black-headed 'White Head' Bird***

*The generic Gaelic word for 'penguin' at first sight seems incongruous. It is ceann-fionn 'fair or white head' – yet a quick photographic survey of these flightless maritime birds of the southern hemisphere shows that their heads are overwhelmingly black. The solution to this conundrum – while still a matter of intense scholarly debate – might lie in another Celtic language, an extinct seabird that once bred on St Kilda, and a Canadian island. The Great Auk, which survived until the mid-19th century, was a flightless bird which weighed up to 5kg and was an important resource to maritime peoples in North America and Europe. It has at least eight recorded Gaelic names, the most familiar of which is gearra-bhall. This is literally 'short or squat spotted one' but is likely to be a corruption of the Norse <u>geirfugl</u> 'spear-bird' which gives an alternative English name gairfowl. Yet another English term for the species was 'penguin', a name with cognates in some other western European languages. It carries the scientific binomial <u>Pinguinus impennis</u>, and its closest living (and more diminutive) relative is the razorbill (<u>coltraiche</u> in Gaelic), known in French as <u>le petit pingouin</u>.*

*Many scholars claim that 'penguin' originates in the Welsh pen gwyn 'white head'. While the great auk sported a white spot on its black head, it is believed by some authorities that the name comes not from the bird itself but from an island in the vicinity of Newfoundland in eastern Canada which was known in Welsh as Pen Gwyn, named for the white guano left by the auk and other roosting seabirds. There are folkloric references to an island named Pen Gwyn by Madog ap Owain Gwynedd, a Welsh prince who is said to have voyaged to North America in the 12th century. It is uncertain as to whether this refers to an island in the Bay of Fundy, known today in English as White Head Island. That the term 'penguin' was applied by mariners to the southern hemisphere flightless birds they encountered on early expeditions, and which reminded them of the great auk, is supported by an account from Sir Francis Drake's expedition through the Magellan Straits in 1578 of the large numbers of 'foule which the Welch men name Pengwin'. When the great auk became extinct, the word came to be exclusively applied to the southern hemisphere penguins.*



Cyfrannwyd y llun i'r Oriel gan Alun Williams 13/04/2009 Y llurs (razorbill) yw'r berthynas byw agosaf i'r carfil mawr diflanedig



Bola pengwiniaid sydd yn nodedig gwyn, nid y pen, er gwaetha'r enw Gaeleg. [llun trwy erthygl RM]

*As with most good etymological conundrums, there is an alternative narrative – that the word originates ultimately in Latin pinguis 'fat'. Spanish and Portuguese voyagers called the great auk the 'pinguin', referring to the bird's thick layer of blubber. In modern Spanish and Portuguese, the penguin is pingüino/pingüina and pinguim respectively, and many languages have similar terms – for example, pingvin (Swedish), pingüin (Dutch) and penguen (Turkish).*


*But not Scottish Gaelic. Our own language has supported a Celtic origin for the word by interpreting Welsh pen gwyn as the cognate Gaelic ceann-fionn; the Irish Gaelic name, in contrast, is piongain.*

*The only known breeding site of the great auk in Scotland's Gàidhealtachd was Stac an Àrmainn in St Kilda, the site of the last known living specimen in Britain, which was killed in 1840. Scotland's record in the conservation of this species is hardly better than any other place, although there is a particularly brutal record from North America of the species being skinned and burned alive, their oily bodies being used as fuel on a treeless island.*

*In 1821, a live auk was caught on St Kilda and given to the captain of a visiting cruiser in order that it be taken to a museum in Edinburgh, where it would be killed and stuffed for display. In the vicinity of Arran, the skipper decided that the bird was dirty and needed a bath. A rope was tied to its leg, and the auk was lowered into the sea. However, it escaped, and no great auk ever made its way to lifeless display in Edinburgh, although there is a specimen in the Kelvingrove Museum in Glasgow.*

*Sadly, the great auk has gone but one of its names lives on in the much-loved penguins of the southern hemisphere. And – perhaps – the Welsh name for a Canadian island explains why these black-headed birds are called 'white-head' in Scottish Gaelic.*
*Yr Awdur: Ysgrifennwyd y blog hwn gan Ruairidh MacIlleathain (Inverness), awdur, darlledwr a storiwr. Mae ei waith yn pwysleisio'r cysylltiadau rhwng yr iaith Aeleg a'r amgylchedd Albanaidd. Bha am blog seo air a sgrìobhadh le Ruairidh MacIlleathain, a tha na sgrìobhadair, craoladair, eòlaiche-nàdair is sgeulaiche, stèidhichte ann an Inbhir Nis.*

## Rhedynen newydd i Ynysoedd Prydain



Adroddiad ar wasanaeth RTE am rywogaeth newydd i ynysoedd Prydain (ac Ewrop o ran hynny?) yn ne orllewin Iwerddon, parth sydd eisioes yn drysorfa o rywogaethau unigryw i ynysoedd Prydain, diolch i Graham Williams am dynnu sylw

Mae'r ardal hon yn enwog am ei phlanhigion Lwsitanaidd (Iberia) a mae eu presenoldeb hwythau yn ne orllewin Iwerddon yn parhau'n ddirgelwch hyd heddiw. Ond mae dirgelwch y rhedyn bach hwn o dras Americanaidd cymaint yn fwy. Mor ddiddorol gydag oblygiadau potensial pell cyrhaeddol. **[Mwy tudalen 3]**

## Rhedynen fach a allai newid y byd

Parhad o dudalen 2

Cafodd rhedynen fach digon disylw o'r enw *Stenogrammitis myosuroides* ei ddarganfod yn ddiweddar am y tro cyntaf erioed y tu allan i'r 'Byd Newydd' yn Swydd Kerry, de Iwerddon. Trigiannydd fforestydd-cwmwl Jamaica, Ciwba a Gweriniaeth Dominica yw'r rhedynen, ac mae'n ddirgelwch pur sut y cyrrhaeddodd hwn un o rannau anghysbell Parc Cenedlaethol Fforest Law Ceri, fel petai wedi byw yno 'erioed' - ac efallai ei fod o!

Tipyn o ddamcaniaethu: yn gyntaf, mae'r ardal hon yn enwog am ei phlanhigion 'dieithr' ond 'cynhenid'. Mae'n enwog am ei blanhigion megis y mefysbren (isod) ac ambell wlithen fel gwlithen Ceri, na welir fel arall y tu allan i benrhyn Iberia ac mae eu presenoldeb hwythau yn ne orllewin Iwerddon yn parhau'n ddirgelwch hyd heddiw.

Yn ail: mae dirgelwch y rhedyn bach hwn ar lefel ganwaith uwch na dirgelwch y fflora 'Lwsitanaidd' - nid gormodiaeth yw dweud bod iddo oblygiadau potensial pell cyrhaeddol i'n dealltwriaeth o hanes y byd. I fod yn gwbl naturiol yn Iwerddon (hy. neb wedi ei gyflwyno yno) byddai'n rhaid i'r rhedynen hon fod yn naill ai'r hyn sy'n weddill o ddosbarthiad llawer ehangach ar un adeg (oes yna rhedynau sydd yn ymestyn dros Ewrasia a'r Amerig?). Neu, a hyn sy'n syfrdanol gan gofio bod 'rhedyn' yn mynd yn ôl 400 miliwn o flynyddoedd yn hanes y byd, ydi hi'n bosibl bod *Stenogrammitis myosuroides* wedi aros yn weddol ddigyfnewid dros yr holl amser yna a bod y rhai ochr ddwyreiniol yr Iwerydd wedi cydfyw yn agos gyda'u cynghreiriaid ar yr ochr orllewinol pan oedd Iwerddon a Jamaica - neu yn hytrach Ewrop a gogledd America - yn rhan o un talp mawr o dir. Dim ond arbenigwr all ateb y cwestiwn yna.

Mae un arbenigwr, Dr. Rory Hodd, darganfyddydd y rhedyn, yn dweud fel hyn: "*Certain features of the specimen collected in Kerry suggest it may have been separated from the Neotropical populations for a long period of time and be taxonomically distinct, but further work would be required to investigate this*." Byddai milenia o arwahanrwydd y ddwy boblogaeth ar ôl i'r cyfandiroedd lithro oddiwrth ei gilydd yn hen ddigon i ganiatáu i *Stenogrammitis* Iwerddon dorri ei gŵys ei hun a magu nodweddion gwahanol i'r brif boblogaeth. Diddorol iawn, iawn.




Mae'r mefysbren yn tyfu fel rhan o fflora Lwsitanaidd Iwerddon yn y de orllewin

Madroños yw'r wirod amheuthun mae Sbaenwyr yn ei wneud o'r ffrwythau

## Mecryll yn Y Fenai

**Oes yna rhwun yn cofio digwyddiad fel hyn** yn y Fenai?

> 1 Hydref 1904: Afon Menai
> *MACKEREL IN THE MENAI STRAITS. Another army of whitebait and mackerel invaded the Menai Straits on Friday* [7ed neu 1af Hydref?] *afternoon, and scores of the residents turned out with rod and line, and ranging themselves along the pier sides and other suitable spots spent most of the day in angling for the mackerel with whitebait previously drawn out of the water by boys with old hampers or anything else handy.* **Llandudno Advertiser 8 Hydref 1904 [Sadwrn]**

Dyma'r ymateb yn Cymuned Llên Natur:

Traeth Pwllheli nos Sul, Medi 20ed. Dros 400 llath o lymreiaid wedi eu rhusio i'r traeth. Haid o fecryll yng nghanol y Fenai ddoe gyferbyn a Doc Fictoria yn gwneud yr un peth, gyrru'r llymreiaid ar y banciau tywod, gwylanod yn cael helfa dda. **Al Elfs**

Ydw, un noson o ha cynnes a hyfryd gyda lleuad llawn a nifer fawr o hogia Niwbwrch ar Ynys Llanddwyn a'r whitebait yn dod i fewn ar y traeth mecryll tu ôl iddyn nhw. Roeddwn i a dad efo Tom Parri (roedd ganddon siop paent yn adeilad 'Rhouse) a'i fab Erroll yn y bae dan y bythynod. Dad wedi fferio yr hogia o geg yr ynys i'r maes parcio efo'r Landrofer. Am noson bythgofiadwy, wedi sôn am hon yn aml ac fel roedd chwa o boethder yn codi ar lwybr yr ynys wrth inni gerdded nol am y landrofer, a'r arogleuon! Faswn i'n deud un ai 1974 neu 1975 dim hwyrach gan fy mod mor fychan. **Einir Wyn**

**Y hwyrach yn y mis** ar y 17 Hydref 2020 fe gawson ni luniau o draeth y Bermo gan Geraint Thomas - dyma gwpwl:



Mae arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarhau mai cael eu hela i'r lan gan fecryll neu forloi sydd y tu ôl i'r digwyddiad.

Dyma Sion Roberts (arbenigwr morol): "Ia edrych yn frawychus, ond nid yn anghyffredin."

I bobl sy'n byw yn nghyffiniau glan môr Penlly^n mae hel llymriaid (neu *llymriata*) yn ddefod yn y tymor (mis Mai gan amlaf meddai llawer).

**Cofiwch glicio ar ddolenni'r Bwletin hwn!**

## Chwilen ddwr fawr o Walchmai....




Ar cowt y tý yn Walchmai rwan [prynhawn 7 Hydref 2020] diolch. Tua modfadd a hanner. [Y dŵr mawr agosaf yw] llyn Hendra tua chwartar milltir i ffwrdd, ond mae na ffosydd yn y fferm tu ôl ir tŷ. **Oswyn Williams**

*Dytiscus marginalis* Y CHWILEN DDŴR FAWR. Er yn byw bywyd acwatig mae nhw'n hedfan o bwll i bwll. Cafodd Oswyn un yn yr union lle bron flwyddyn yn ôl. (mae yna rhywogaethau eraill ond '*marginalis* yw'r tebycaf).

> Meddai Wikipedia: *They are able fliers, and fly usually at night. They use the reflection of moonlight to locate new water sources. This location method can sometimes cause them to land on wet roads or other hard wet surfaces.*
> [Sylwer mai yng nghanol y prynhawn y cyrhaeddodd hwn,]

19/07/2011 Mae Gwalchmai a'r cyffiniau yn amlwg yn fan poeth i hon.




## ....a'i larfa o Rostryfan



Dyma lun yr 'anghenfil' [larfa'r chwilen blymio mawr] yn ein pwll (wel un o tua 5 ohonynt) [yn Rhostryfan]. Roeddwn wedi dal hwn a'i roi mewn powlen i fy wyres ei weld. Tynnwyd y llun hwn yn ystod mis Mehefin eleni. Roeddynt yn bwyta pob pryf a larfa creaduriaid eraill yn y pwll ond eu hoff fwyd oedd y penybliaid - serch fod rheiny yn rhai reit aeddfed. Reoddynt yn eu dal gyda'u pinsiars blaen ac yna yn diflannu i'r golwg hefo nhw. Fe ymchwiliais ar y we a'u hadnabod fel larfa y chwilen blymio fwya, a casglu eu bod yn 'injectio' y prae druan hefo rhyw fath o enzyme oedd yn toddi y cnawd fel fod y larfa yn gallu sugno y cnawd i fyny. Gwelais ambell i groen penbwl gwag ond yn anffodus heb dynnu llun un. Fe ddiflannodd y pum larfa dros nos - ond mae Arthur fy mhartner wedi gweld un yno eto heddiw. Mae ambell i benbwl yn dal ar ôl - a dwi'n meddwl fod rhai yn benbyliaid madfall y dwr. Os dof o hyd i groen gwag mi wnai adael ichi wybod. [Tynnwyd Gorffennaf 2011]

**Olwen Penbryn**

## 2020 - blwyddyn mês



Mes Gwaith Powdwr, Penrhyndeudraeth, 1 Hydref 2020 **Llinos Griffin**

**Mae'n flwyddyn mês fan hyn yn Arfon. Ydy ardaloedd eraill yn debyg?** **Gill Brown**

Dwi wedi clywed llwythi o fês yn taro'r cerbyd wrth yrru o gwmpas Gogledd Cymru. Dwi rioed wedi sylwi ar hyn yn diwydd cyn eleni.

**Iwan Williams**

.Gymaint ar y llwybr serth yn Coed y Mwstwr*, Pen-coed fel fy mod yn teimlo fy mod yn sefyll ar 'ball bearings' ac wedi gorfod troi nol rhag cael codwm *Coedwig hynafol rhwng Pen-coed a Llangrallo tua 3 milltir o Pen-y-bont ar Ogwr (yno mae Ogof y Pebyll). **Dwynwen Murray**

## Delor y cnau - yr aderyn trafferthus

**Mae'n siŵr eich bod chi wedi sylwi bod Llên Natur yn cyhoeddi llythyr misol pedairieithog wrth lansio pob bwletin newydd.** Dyma gyfle i arbrofi gyda phedair iaith wrth drafod aderyn bach prydferth sef DELOR Y CNAU.

Mae DELOR Y CNAU yn ymddangos acw yn Nhregarth weithiau, yn enwedig pan mae'r tywydd mor oer â diwedd Chwefror eleni. Pan ofynnais i DB ai "telor y cnau" oedd yr aderyn sydd ar y llun, dwedodd wrthyf "Ia a naci! Ia, DELOR y cnau ydio. Warbler ydi telor - teulu hollol wahanol." Digon i mi ddrysu mwy… Nid oedd GPC yn mynd i fod o help chwaith pan mae'n cynnig "telor" neu "delor", ac yna enw gwrywaidd, neu fenywaidd - Pedwar posibilrwydd!!! Wrth lwc mae pobl Cymdeithas Edward Llwyd a'i phartneriaid wedi safoni enwau adar a phlanhigion ac yn cynnig DELOR Y CNAU, un union â llyfr adar Iolo Williams. Popeth yn iawn o safbwynt y Gymraeg!

[Gyda llaw, nid bathiad grwp safoni CELl oedd delor. Mabwysiadu'r enw wnaethon ni o amrywiol ffynonellau gweddol diweddar (ee. TG Walker ac EV Breeze-Jones). Am y rhesymau mae DK wedi eu hamlygu mae'r enw braidd yn anfoddhaol ond yr oedd wedi ei sefydlu. Yn sicr dydio ddim yn 'telor' nac yn delor wedi ei dreiglo'n feddal chwaith! DB]

Ond roeddwn eisiau gwybod beth-ydi-beth yn Saesneg hefyd. Ai "*warbler*" ydi enw'r aderyn yn yr iaith hon? Na! Roedd DB heb dweud wrthyf mai "*nuthatch*", "*Eurasian nuthatch*" ydi ei enw. Er bod yr aderyn yn "trydar" (*to warble*) mae o'n perthyn i deulu adar gwahanol sef y *Sittidae*. Mae teulu arall fel y *Sylviidae* yn cynnwys mwy na 400 o fathau o rywogaethau gwahanol! Y rhinweddau maent yn rhannu yw'r ffaith eu bod nhw'n bwyta pryfaid, eu bod nhw'n fach a bod eu can yn eitha tebyg. Erbyn hyn gwahenir teulu arall sef y *Phylloscopidae*, ee: telor yr helyg *willow warbler*. Mae'r ferf "to warble" yn ddiddorol hefyd. Mae'n dod o air Hen Ffrangeg, o dras Germaneg, sef *guerbloiier* oedd yn golygu "troi" (fath a throbwll!) ond wrth gwrs mae'n ymwneud â'r ffaith bod eu can yn "cwafrio".

DB eto: Yn ôl un cyfundrefn, *Sylvidae* yw'r teloriaid sydd yn cynnwys nifer o genera eitha gwahanol megis Phylloscopus, Sylvia, Acrocephalus ayb sydd yn wahanadwy iawn rhwng ei gilydd

Roedd y Ffrangeg yn mynd i ddangos problem debyg, roeddwn i'n gyfarwydd â'r enw "pouillot" (sef "warbler") sy'n golygu "iâr fach" ("poule" ydi iâr yn Ffrangeg). Roedd yr enw Lladin yn rhoi help uniongyrchol wrth anelu at "sittelle torchepot", heb ddim byd i wneud efo Ewrop yn yr enw Ffrangeg. Mae enw Ffrangeg yr aderyn bach swnllyd hwn yn dod o'r Roeg "σίττη" (*sittè*), oherwydd ei gan mae'n debyg. Mae ail ran ei enw braidd yn ddigri oherwydd y nodwedd ddilornus sydd yn y gair "torche". Mae'r gair hwn yn cyfeirio at waith "slebogaidd" yr iâr sy'n cau rhan o drothwy ei nyth gyda mwd! Does 'na ddim byd dilornus yn y gair "pot" sy'n golygu "potyn"… dwi ddim yn credu bod cân - neu ddwy gân - y delor cnau yn llawer o gymorth wrth ei briodoli i deulu.

Mae gan y Llydaweg safonol y gair "puig" sydd yn cyfeirio fel y Saesneg "warbler", y Ffrangeg "pouillot" a'r Gymraeg "telor" at deulu'r "*Sylviidae*"/ "*Phylloscopidae*". . Mae sawl erthygl Wikipedia wedi eu hysgrifennu am wahanol deloriaid yn y Llydaweg: *Puig sut* (chwiban), *Puig abrantek* (eiliau), *Puig-Bonelli*, *Puig Iberia* (Sbaen), *Puig chip-chap* ("chiffchaff"?! – addasiad o'r Saesneg). Mae'n amlwg bod cymharu ieithoedd yn help i roi enw addas i adar yn y Llydaweg. Nid wyf yn siŵr pryd gafodd enw Llydaweg am "*Sitta europea*" ei fathu, ynte Mr Esnault! Mae o'n edrych yn addas i mi. Mae'r enw "*poker(ig)-kraoñ*" yn dangos yn dda'r weithred o bigo cnau, mae'n agos i'w ail enw Cymraeg sef "cnocell y cnau".


[Does dim dwywaith bod y delor cnau un llawer agosach i gnocell nag i delor (y treiglad yna eto.....)]. **Dominig Kervegant**

## Stiliwns?

Padog, Ysbyty Ifan 20 Medi 1955: Mynd heibio Bryn Bras i nol y **stiliwns.** Awyrlas, teg a hyfryd, awelog. **Dyddiadur D.O.Jones**

**Pwy sy'n gyfarwydd â'r gair 'stiliwns' (clorian).** Deudwch o ble. (O'r Saesneg '*steelyard*' mae'n debyg).

Dyma Eiriadur Prifysgol Cymru:
stilian1, stilians, stilions, &c. [bnth. S. taf. stillion(s), ff. ar steel-iron(s)] eb. Durlath, mantol (sbring), clorian: *steelyard, (spring) balance, scales*. 20g. Ar lafar, '*In the midland area … and in the south-east … stilion(s), stiliwns … spring-balance', LGW 228*; 'stilions' (Meir.); 'stilian' (gogledd a chanolbarth Cered.); 'stalian' (godre Cered.); 'Mae wedi catw'r stilians bres' (dwyrain Morg.); hefyd yn y ff. 'Stulas', ISF 70.



Y *steelyard* gwreiddiol

Darllenid pwysau'r gwrthrych ar y bachyn isaf ar raddfa'r 'lathen' ar y dde trwy lithro'r mesurydd ar ei hyd i ganfod y ffwlcrwm.

Dim di clywed stiliwns, ond *stilej* ma Mam sy'n 86 oed yn galw clorian. Llannefydd/ Dinbych..... Newydd gael gair rwan... ia clorian yn y gegin a stilej hefo bachyn fel yn y llun isod.

**Eirianwen Blackford**

Roedd nhad yn ei ddefnyddio hyd yn oed tra'n siarad yn Saesneg, tridegau ar fferm ger Ynysybwl Morgannwg.

**John Vivian Harris**

Roedden ni yn defnyddio y gair yma adre pan oeddwn yn blentyn yn Llanuwchllyn. **Eirian Owen**

*Clorian* mewn cegin; *Stiliwns*, teclyn mewn llaw (neu wedi'i grogi ar hoelen neu fach ar ddistyn) hefo bach ar ei waelod i bwyso rhywbeth mwy anhylaw / trwm. Rhydymain. Stiliwns fyswn i'n galw hwn [llun] **Margaret Edwards**




Yr un fath yn Rhaeadr Gwy. **Gwen Ffrancon Lewis**

*Stilian* llangwrddon ceredigion **Wil Griffiths**
**Mêl**

*Stiliwrs* gofiai i am y pwyswr â bach ar ei waelod ym Methesda tua trigain mlynedd yn ôl. **Myrddin Williams**

## Addysg natur yn 1900




"Faint o blant ysgol heddiw sy'n cael treulio p'nawniau hamddenol yn crwydro caeau a choed o gwmpas eu hysgol yn dysgu am fyd natur ac enwau blodau ac anifeiliaid? Gyda phryderon wedi eu codi yn y blynyddoedd diweddar bod plant yn colli geiriau a gwybodaeth am fyd natur, mae cofnod gan blentyn ysgol o 1900 wedi dod i'r fei yn sir Ddinbych sy'n dangos faint sydd wedi newid. Cafwyd hyd i lyfr ysgol plentyn bach o'r enw John Beech yn cynnwys lluniau a nodiadau o'i wersi natur yn ysgol Llanarmon-yn-Iâl ar droad yr 20fed ganrif mewn bocs o hen ddogfennau capel."

[Stori o BBC Cymru Fyw]

## Tywydd Huw, Waunfawr, Medi 2020

Waunfawr    station name        1981-2010    period of averages
(IDEALLY 1981-2010)
20/09    year/month
17.7    mean max (C)        +1.0    diff from av (C)
9.1    mean min (C)        -0.5    diff from av ©
13.4    mean (C)        +0.2    diff from av (C)

26.0    high max (C)        14    date
12.4    low max (C)        26    date
15.6    high min (C)        15    date
2.0    low min (C)        26    date
2.0    grass min (C)        26,28    date
===================

96    rain total (mm)        76    % of av
15    raindays (no. of days with 0.2mm or more)
14    wetdays (no. of days with 1.0mm or more)
20.4    most in a day (mm)    22    date

No. of days with:
0    air frost (air min temp -0.1C or less)
0    ground frost (grass min temp -0.1C or less)
0    sleet/snow falling (in the UK from 0000-2400 GMT)
0    50% snow cover at morning observation hour
0    thunder heard (in the UK from 0000-2400 GMT)
0    smallhail < 5mm diameter
0    largehail >=5mm diameter
0    fog at morning observation hour

SUNSHINE
143  total sunshine (hours)
5    sunless days
0900 GMT is the time of morning observation

SOIL TEMPS
13.16    30cm mean

WINDDATA
0    days with gale (10min mean wind 39mph/34kts or more)
Number of days with wind from
3 N, 2 NE, 2 E, 0 SE, 8 S, 8 SW, 2 W, 3 NW, 2 calm
38    max gust mph        16    date

62%  cloud cover at 0900 GMT
90%    mean RH at morning observation (0900 GMT)
73  hours with 0.2mm or more precipitation.
0    frost duration (hours)

1016.8    mean pressure (mb) at 0900 GMT ONLY
1030    max pressure at any time of day    17    date
990    min pressure at any time of day    24    date
============================================

DAILY and MONTHLY STATION NOTES
Daily: 1st: Well defined 22 degree lunar halo 2100-2200 GMT 15th-17th: Extreme max temp record broken for each day on these three successive days.
26th-28th: Extreme min temp record broken for each night on these three successive days.

Monthly: Temperature and sunshine were normal for September, but rainfall considerably below normal at 76%.of average.

Fine warm dry spell from 12th - 21st September, a welcome return to the mid September anticyclonic singularity? - absent in recent Septembers.






Cawsom y pleser o weld 4 Dolffin Risso ddoe, ger Trwyn Eilian, Ynys Môn. Buom yn eu gwylio am tua hanner awr a Rhys wedi llwyddo i gael llun reit dda!


**Iola Llewelyn Gruffydd**

Cofnod 2015 nid nepell I ffwrdd, ar adeg tebyg o'r flwyddyn:

*Returning to his home in Bull Bay on the north coast of Anglesey late on Saturday afternoon, Sea Watch's Director, Dr Peter Evans, was greeted by a small group of Risso's dolphins right in front of his house that overlooks the sea. In Britain, Risso's dolphins are uncommon, occurring in relatively few places mainly along our western seaboard. This sighting was followed the next morning by a number of phone calls reporting more Risso's dolphin sightings from nearby Point Lynas. Peter drove out to look at them and saw another small group. Linking up with local boatman, Jon Shaw, at lunchtime they both went out in his vessel, Seekat C, in the hopes they might find the animals. No sooner had they gone out of the harbour at Amlwch when they came upon another small group. After travelling back and forth between Point Lynas in the east and Porthwen in the west, guided by land observations telephoned through to them by observers Mike Thompson and Andy Sherriff at strategic points on the coast, it became clear that there were several groups of this species, and by the end, their tally was over fifty making this an exceptional record. Normally in this area, only very small numbers are seen every year. The animals were generally moving westwards stopping regularly to look for small squid and octopus that form their main prey. On occasions they would bunch together into bigger groups and social behaviour would be observed. Many of the dolphins were younger animals, much darker than the mature white individuals," said Dr Evans. "These were engaged in lots of playful behaviour, swimming in a tight bunch often in direct contact with one another. The dolphins showed some segregation by age with younger animals forming separate groups."   Mwy o gofnodion dolffiniaid Risso Llên Natur yma*

## Hynt a helynt morwennol pigddu





Corff Morwennol bigddu (Sandwich Tern) ar draeth Criccieth, Awst eleni 2020. Yn ôl y wybodaeth a gafwyd o rhif y fodrwy, magwyd yn y nyth yn Wexford, Iwerddon yn 2002 , ac yn ystod ei hoes roedd wedi hedfan tua 330,000 km wrth fudo yn flynyddol rhwng y wlad hon a de Afrig.   Mi roedd yr aderyn yma wedi byw i oedran eithriadol o dda gan ystyried mae 12 mlynedd yw yr oes arferol.  Rhyfedd meddwl fod yr holl wybodaeth wedi ei gloi yn rhif un fordwy.  (Diolch i  Kelvin Jones am y gwybodaeth)

**Gwilym Arthur Roberts**


## Ffwng Clocaenog: cofnod gweledol Eirianwen Blackford



Dyma gasgliad or gwahanol ffyngoedd da ni di ‘i gweld eleni yng Nghoedwig Clocaenog. Pincyn Llys, Bod Petryal, a Boncyn Foel Bach.

**Eirianwen Blackford**

## ‘Fferi’ Talycafn



Hen ddarlun o Talycafn cyn codi'r bont tros afon Conwy. Trwy law Hefin Williams FB.

**Cofnod hanesyddol gan Hugh Davies at ei gyfaill Thomas Pennant am groesi’r afon Gonwy yn Nhalycafn ar noson wyllt 5 Rhagfyr 1794:**

*I do not delay to let you know that i have survived the drefsing?[sic] [drenching?] i underwent on "Wednesday [sic]* [3ydd Rhagfyr] *by the continual rain my hand [sic] is blistered in holding the bridle; the current of "water [sic] at Talycafn was really frightful, and no line to conduct us across the river as usual! A tremendous gale of wind which continued about eight and forty hours and came on the next day after i came to Downing, has caused great losses in this neighbourhood, and in some part [sic] of Anglesea [sic]; many ricks of hay have been entirely swept away; fruit & other trees torn up; houses unroofed? I thank God by the activity of my servants and neighbours my little stack of hay was with difficulty saved Hugh Davies, Aber Dec 5th 1794”.* **Hugh Davies, rheithor Aber, ac wdur “Welsh Botanology”**

Dim rhyfedd bod y porthmyn o Fôn ayyb fyddai'n croesi i Draeth Lafan a thros y top ac i lawr i Rowen yn dewis mynd lawr a chroesi'r afon dros y Bont Fawr yn Llanrwst yn hytrach na chroesi ar y fferi yn Nhalycafn.

**Twm**

## Planhigyn i’w wylio’n ofalus?



O ba deulu ma` hwn tybed ? Cwrs Golff Port 23/09/2020, tri phlanhigyn ger y llyn

**Derec Owen**

*Pontederia cordata*: prin iawn yn y gwyllt - ddim yn rhywbeth i’w groesawu.... Heb ei recordio ym Mhorthmadog (map).




*Pontederia cordata, common name pickerelweed (USA) or pickerel weed (UK), is a monocotyledonous aquatic plant native to the American continent. It grows in a variety of wetlands, including pond and lake margins across an extremely large range from eastern Canada south to Argentina. A few examples include northern rivers, the Everglades and Louisiana.*



# Clwb y Llygaid Bach

# Gwyfynod Yr Hydref

*Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd*

**1.Gwyfyn gwinau cyffredin** *Conistra vicinni*



Cynefin: coetir llydanddail, prysgwydd, gwrychoedd a gerddi. Er yn gysylltiedig â'r hydref mae'n ymddangos yn y gwanwyn hefyd ar ôl gaeafgysgu fel oedolyn pan fydd yn ymweld â blodau'r helyg. Mae'r larfa'n bwydo ar ddail ystod eang o goed, gan gynnwys bedw a derw.

**2. Gwyfyn oren llinell goch** *Agrochla lota*



Mae'n mynychu coetir agored yn aml, ynghyd â rhostir ac ardaloedd llaith. Cylch bywyd o un genhedlaeth yn unig sydd ganddo, yn hedfan ym mis Medi a mis Hydref, ac mae'n hawdd ei ddenu i'r trap golau. Mae'n treulio'r gaeaf fel ŵy sy'n deor yn y gwanwyn fel lindysen. Mae'r lindys ifanc yn bwydo ar 'gathannod' helyg, gan symud i'r dail wrth iddynt aeddfedu. Maent yn bwydo gyda'r nos ac yn cuddio mewn dail wedi'u nyddu yn ystod y dydd. Cofiwch am ei chwaer rhywogaeth y gwyfyn oren llinell melyn sydd yr un mor gyffredin ac yn dwyn yr un patrwm sylfaenol ar ei adenydd.

**3. Cilgant brych** *Allophyes oxyacanthae*



Er iddo ymddangos ar un olwg yn ddigon disylw, mae ganddo glytiau o wyrdd metelaidd sy'n rhoi sglein ddeniadol iddo yn y golau cywir. Mae ffurf felanig gyda llawer llai o wyrdd hefyd yn eithaf cyffredin mewn ardaloedd maestrefol. Ei gynefin : coetir llydanddail, prysgwydd, gwrychoedd a gerddi. Mae hwn wir yn perthyn i dymor yr hydref, dim ond yn hedfan o fis Medi i fis Tachwedd. Y lindys yn deor yn y gwanwyn ac yn bwydo ar amrywiaeth o goed a llwyni, gan gynnwys y ddraenen wen a'r ddraenen ddu.

**4. Gwladwr du** *Aporophyla nigra*



Hyd ei adenydd yw 40-48 mm ac mae felly yn hir ei esgyll, heb fawr o amrywiad ar y lliw du-frown sylfaenol a'r 'stigmata' gwyn. Mae gan y gwrywod ôl-adenydd gwyn, rhai'r benywod yn dywyllach. Mae'n hedfan ym mis Medi a mis Hydref, gan fynychu rhostir ac iseldir, ac mae'r larfa'n bwydo ar blanhigion isel fel grug a dail tafol, yn ogystal â gweiriau amrywiol.

**5. Gwyfyn cennog** *Dichonia aprilina*



Un o'n gwyfynod harddaf, yn enwedig wrth iddo ymddangos yn syth o'r chwiler. Tueddant i golli eu lliw gwyrdd deniadol gydag amser a phylu i liw melyn-frown. Yn gyffredin ac yn hawdd ei adnabod. Cynefin: mae'r rhywogaeth hon yn mynychu coetir a pharciau. Fe'u gwelwn, un neu ddau ar y tro, ym misoedd Medi a Hydref. Mae'r larfa'n bwydo ar dderwen, ar y blagur a'r blodau i ddechrau, ac yn ddiweddarach ar y dail.

**6. Gwyfyn lloeren** *Eupsilia transversa*



Mae yna nifer o amrywiadau, ond fel arfer gyda lliw sylfaenol a stigmata gwyn neu oren. Gall y 'lloerennau' bach o bobtu'r stigma fod yn aneglur, yn enwedig mewn unigolion treuliedig. Eu cynefin yw coetir llydanddail, parciau a gerddi. Daw'r oedolion i'r amlwg ym mis Medi a gellir dod ar eu traws dan amodau ffafriol ar unrhyw adeg trwy'r gaeaf tan fis Ebrill, pan ellir eu denu'n arbennig at siwgr, ond hefyd i olau. Mae'r larfa'n bwydo ar nifer o goed collddail ac mae ganddyn nhw hefyd duedd cigysol tuag at larfâu rhywogaethau eraill.

*Gan Gareth Wyn Pritchard*

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 1 | __________ | ____________________ | 10 |
| 2 | __________ | ____________________ | 15 |
| 3 | __________ | ____________________ | 20 |

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 4 | __________ | ____________________ | 15 |
| 5 | __________ | ____________________ | 20 |
| 6 | __________ | ____________________ | 15 |